**Trosolwg Thema- Awyr Iach CC 1 a 2**
**Dosbarth Wiewrod**
Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?

| | |
|---|---|
| **Iechyd a Lles**<br> | **Sut gall ein penderfyniadau bach wneud gwahaniaeth mawr i'n hiechyd a'r byd o'n cwmpas?**<br>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae eu dewisiadau bob dydd yn effeithio ar eu hiechyd nhw a iechyd pobl eraill. Byddant yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol a dychmygol, fel dewis rhwng cerdded neu ddefnyddio'r car, bwyd iach neu llai iach, a defnyddio plastig neu ailgylchu.<br><br>Byddant yn ysgrifennu stori neu adroddiad byr i esbonio canlyniadau pob dewis, ac yn trefnu'r wybodaeth mewn tabl neu graff. Byddant hefyd yn defnyddio offer digidol i greu sleidiau neu graffiau sy'n dangos effaith eu penderfyniadau, gan ddysgu sut gall gwneud dewisiadau gwybodus wella eu hiechyd a bywyd pobl eraill, nawr ac yn y dyfodol. |
| **Dyniaethau**<br> | **Sut mae cymunedau yn ymateb i newid hinsawdd?**<br>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae gweithgareddau dynol lleol yn effeithio ar yr amgylchedd. Byddant yn cerdded o gwmpas eu hardal leol i arsylwi sut mae pobl yn rhyngweithio â'r amgylchedd –gan nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol.<br><br>Byddant hefyd yn tynnu lluniau neu recordio fideo byr i ddogfennu'r arsylwadau, ac yn trafod sut mae gweithgareddau dynol yn effeithio ar awyr iach a bywyd gwyllt. Yn ychwanegol, byddant yn dewis un math o weithgaredd dynol lleol i'w ymchwilio'n fanwl, gan greu graffiau neu ddeunydd digidol sy'n dangos yr effaith, a dysgu sut gall newid ymddygiad pobl helpu i gadw'r byd naturiol a'r awyr yn iach. |
| **Gwyddoniaeth**<br> | **Sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar y berthynas rhwng pethau byw?**<br>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar berthynas rhwng pethau byw. Byddant yn arsylwi ecosystem leol, gan fynd am dro o gwmpas yr ardal leol i nodi planhigion, anifeiliaid a mannau gwyrdd, ac yn creu map syml sy'n dangos lle mae pobl yn mynychu a pha effaith y gallai hynny gael ar natur.<br><br>Byddant yn rhestru a chyfri planhigion a bywyd gwyllt lleol, tynnu lluniau i greu albwm digidol, ac yn trafod sut mae penderfyniadau pobl yn effeithio ar oroesi'r pethau byw hyn. |

**Trosolwg Thema- Awyr Iach CC 1 a 2**
**Dosbarth Wiewrod**
Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?

| | |
|---|---|
| | Yn ogystal, byddant yn dylunio poster neu fap sy'n dangos cylch bywyd lleol a sut mae pobl a natur yn cydweithio i gynnal ecosystem iach, gan ddeall cyd-ddibyniaeth pethau byw a'r effaith o weithgareddau dynol. |
| **Celfyddydau Mynegiannol**  | **Sut gallwn ni ddangos bywyd gwyllt a'r amgylchedd trwy gelf a gwaith creadigol?**<br>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio natur ein hardal leol trwy gelf a gwaith creadigol. Byddant yn edrych ar luniau, fideos a gwaith artistiaid i ddeall bywyd gwyllt a phwysigrwydd awyr iach, ac yn creu lluniau neu gollage sy'n dangos planhigion, anifeiliaid a'r amgylchedd. Trefnu deunyddiau yn grwpiau: naturiol / wedi'u hailgylchu.<br><br>Byddant yn myfyrio ar y neges y mae eu gwaith yn ei chyfleu, rhannu adborth gyda'u cyfoedion, ac yn datblygu eu gwaith yn seiliedig ar y sylwadau hyn. Byddant hefyd yn defnyddio offer digidol i dynnu lluniau neu greu fideo o'u prosiect, yn ysgrifennu brawddegau am eu gwaith, ac yn cofnodi elfennau creadigol neu ddeunyddiau a ddefnyddir, gan gynnwys paent, papur, sbwriel ailgylchu neu ddeunyddiau naturiol. Dilyniant a threfn- Trefnu'r camau i greu gwaith celf (Yn gyntaf, casglu deunyddiau. Wedyn torri. Yn olaf gludo). Trafod y trefn gywir. |

Cyd-destun Lleol
Byddwn yn defnyddio cyd-destun lleol drwy archwilio'r ardal o amgylch yr ysgol, gan gynnwys edrych ar sbwriel ac ailgylchu yn ein cymuned. Byddwn yn trafod pwysigrwydd bio-amrywiaeth ac astudio trychfilod yn yr amgylchedd lleol. Bydd hyn yn helpu'r plant i ddeall sut gallant ofalu am ein byd.